OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1435 (Cy. 145)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ganllwyd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mai 2015* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mehefin 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A470) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2),** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mehefin 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Y Ganllwyd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o'r gefnffordd yn y Ganllwyd yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i Bont ar Eden hyd at bwynt 450 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mai 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.